

**Nodiadau o gyfarfod a gafodd ei gynnal gyda chyngor yr ysgol
yn Ysgol Gyfun Bryncelynnog**

22 Tachwedd 2018 am 2pm

**Cyfarfod i drafod cynigion y Cyngor i ad-drefnu darpariaeth ysgolion
yn ardal Pontypridd**

Yn bresennol:

Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar gyfer Gwasanaethau Mynediad a Chynhwysiant,
Lisa Howell, Uwch Swyddog Cymorth Trefniadaeth Ysgolion yr 21^{ain} Garrif
Martyn Silezin, Swyddog Strategaeth 14-19 oed
Sophie Nicholls, Swyddog Graddedig Carfan Cymorth Trefniadaeth yr 21^{ain} Garrif
Gavin Tranter, Swyddog Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Roedd 47 o ddisgyblion yn bresennol.

Croesawodd Esther Thomas (ET) bawb i'r cyfarfod ac amlinellodd y cynnig, y rhesymau dros y cynnig, pwrpas y cyfarfod, y broses ymgynghori a'r amserlenni yn ymwneud â'r broses ymgynghori a'r cynigion eu hunain pe baen nhw'n cael eu gweithredu.

C. A fyddai Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn cael eu heffeithio?

A. Byddai disgyblion sydd yn Ysgol Gynradd Gwauncelyn yn mynd i Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen yn hytrach nag Ysgol Gyfun Bryncelynnog. Bydd hynny'n newid cyfansoddiad y disgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4. Mae yna hefyd gynigion i adeiladu rhagor o dai yn yr ardal yma. Yn y ddogfen ymgynghori mae mapiau sy'n dangos dalgylchoedd yr ysgolion yma i chi.

C. Fydd y gwaith yn swnllyd?

A. Bydd yna ychydig sŵn. Fydd y gwaith ddim yn mynd rhagddo tra bod arholiadau yn cael eu heistedd. Mae'r Cyngor a'r contractwyr yn brofiadol o ran lleihau aflonyddwch a risg.

C. Pa fanteision fydd disgyblion Cyfnodau Allweddol 3 a 4 yn eu cael?

A. Byddwch chi'n gallu gweithio yn yr ystafelloedd arbenigol a byddwn ni'n edrych ar y safle cyfan wrth benderfynu ar feysydd allweddol ar gyfer y gwaith gwella fel bod pob disgybl yn elwa.

A. Bydd y gwaith sydd wedi cael ei gynnis o fantais i bob disgybl, nid blynyddoedd 12/13 yn unig. Efallai bydd yna labordai gwyddoniaeth newydd a chyfleusterau Dylunio a thechnoleg ayyb a fydd yn cael eu defnyddio gan bawb. Mae'r Cyngor eisoes wedi buddsoddi dros filiwn o bunnoedd yn y cae 3G a'r trac rhedeg er lles pob disgybl a'r gymuned.

A. Byddwch chi'n cael cwricwlwm ehangach hefyd gan y byddai'r ysgol yn cael cyfle i gyflwyno rhai pynciau newydd ar lefel TGAU .

A. Mae ysgol yn derbyn rhagor o arian os oes ganddi lawer o ddisgyblion. O'r herwydd, mae modd iddyn nhw gyflogi rhagor o aelodau o staff ac, o bosibl, gynnig pynciau newydd.

C. Sut fydd hyn yn effeithio ar gludiant?

A. Bydd gan unrhyw un sy'n gorfod teithio dros ddwy filltir hawl i gludiant am ddim.

C. Fydd hyn yn effeithio ar ymddangosiad a phris y wisg ysgol?

A. Llywodraethwyr yr ysgol fydd yn penderfynu hyn.

A. Yn Nhreorci, rydyn ni wedi cynyddu maint eu chweched dosbarth ond gan mai nhw yw'r un ysgol o ran llywodraethu, mae enw'r ysgol, bathodyn yr ysgol a'r wisg ysgol yr un fath. Pe bai pethau'n newid byddai'n benderfyniad i'r ysgol ac rydw i'n siŵr bydden nhw'n ymgynghori â chi.

C. Ble fydd y chweched dosbarth?

A. Rydyn ni'n dal i ystyried hyn ac mae'n gynnar iawn yn y broses ar hyn o bryd. Mae'r broses ymgynghori ar y cynigion yn dal i fynd ymlaen, felly rydyn ni'n dal i drafod y mater. Efallai byddwch chi'n gweld rhai o'n hymgyngorwyr technegol yn cynnal arolygon dros yr wythnosau nesaf i benderfynu beth fydd y ffordd orau i ddefnyddio'r safle. Mae ein cyllideb yn seiliedig ar y gwaith rydyn ni wedi gwneud yn Nhreorci. Mae union fanylion y gwaith yn dal i gael eu trafod.

C. Pa bynciau fydd yn cael eu cynnig a pha mor gystadleuol fyddwn ni o gymharu â cholegau?

A. Gobeithio byddai rhagor o staff yn golygu rhagor o bynciau ond mae hyn yn benderfyniad i'r ysgol. Byddai'r ysgol yn cydweithio'n agos â busnesau a meysydd prinder sgiliau i bontio unrhyw fylchau a chreu chweched dosbarth sy'n gam ymlaen tuag at ddyfodol llwyddianus i chi.

A. Mae dwy lefel yma. Y llywodraethwyr a'r ysgolion fydd yn dewis y pynciau a bydden nhw'n ymgynghori â'r disgyblion. Mae tueddiad i symud tuag at wyddoniaeth gymhwysol ar hyn o bryd ac mae angen i ysgolion gadw i fyny â hyn. Bydd y dangosyddion perfformiad newydd yr un fath â'r coleg yn fuan a gallwn wedyn wneud cymariaethau uniongyrchol.

C. Fydd rhagor o bwysau ar staff dysgu?

A. Bydd rhai aelodau o staff eisiau'r cyfle i ddysgu dosbarthiadau chweched dosbarth. Byddai'n well gan rai aelodau o staff ddysgu Cyfnodau Allweddol 3 a 4. Rydych chi'n cael canlyniadau da yma ar hyn o bryd ac mae'n amlwg bod eich athrawon chi'n cyflawni hyn. O ran y nifer o ddisgyblion i bob athro, dydy rhai dosbarthiadau bach ddim yn hyfyw ar hyn o bryd. Ar gyfer Safon A, rydych chi angen rhyngweithio er mwyn hybu rhagor o ddysgu annibynnol ac mae angen dod o hyd i gydbwysedd.

A. Mae safon eich athrawon yn debygol o wella ymhellach os oes chweched dosbarth mawr. Bydd gyda chi ragor o ddisgyblion a rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan yn y celfyddydau perfformio a chwaraeon hefyd.

C. *Fydd y cwricwlwm yn newid?*

A. Efallai fydd rhagor o ddewis, ond y llywodraethwyr fydd yn penderfynu hyn. Rydyn ni'n rhagweld bydd rhagor o ddewis.

C. *Ble fydd y £10 miliwn yn cael ei wario?*

A. Fydd yr arian ddim yn cael ei wario ar y chweched dosbarth yn unig. Rydyn ni'n edrych ar y safle cyfan. Does gyda ni ddim cynlluniau eto oherwydd does dim modd i ni gynnal arolygon eang ar hyn o bryd gan fod rhaid i'r cynnig gael ei ystyried gan y Cabinet. Os bydd y cynigion yn symud ymlaen, byddwn ni'n rhannu'r cynigion gyda'r ysgol a byddwn ni'n croesawu eich barn.

C. *Ble mae'r £10 miliwn yn cael ei wario'n benodol?*

A. Mae gyda ni £168 miliwn. Mae modd i ni symud rhan o hyn o gwmpas os oes angen gan ddefnyddio'r amlen ehangach cymaint â phosibl er mwyn gwneud y gorau o'r safleoedd. Does dim modd i ni fod yn benodol ar hyn o bryd nes bod y penseiri yn asesu'r safle.

C. *Faint mwy bydd y safle?*

A. Bydd y safle'r un maint ond efallai bydd rhaid i ni adleoli ardaloedd o fewn y safle.

A. Efallai bydd rhai estyniadau ac ati, ond o fewn ffin y safle presennol.

C. *Pa gyfleusterau neu gyrsiau fydd yn cael eu cynnig i ddenu rhagor o ddisgyblion chweched dosbarth i'n hysgol?*

A. Bydd hynny'n dibynnu ar yr hyn y mae modd i'r ysgol ei gynnig a'r staff sydd yma.

A. Rydyn ni fel arfer yn darparu ardaloedd arbennig ar gyfer disgyblion chweched dosbarth megis ystafelloedd TGCh, siop goffi anffurfiol, llyfrgell ac ati. Byddwn ni'n gofyn am eich mewnbwn.

C. *Faint o ddisgyblion ydych chi'n meddwl bydd yn mynychu'r ysgol?*

A. Rydyn ni'n amcangyfrif bydd tua 450 o ddisgyblion chweched dosbarth yn mynychu. Mae'r ffigyrau yma'n seiliedig ar y data sydd gyda ni ar hyn o bryd. Mae llawer o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghori yn egluro sut y cyrhaeddwyd y ffigwr yma. Mae dewisiadau eraill ar gael - efallai bydd rhai disgyblion yn penderfynu mynychu Coleg y Cymoedd.

C. *Bydd yr adeilad yn cael ei adeiladu ac yna'n rhy fach erbyn 2022?*

A. Na, ond gyda rhagor o dai yn cael eu hadeiladu, efallai bydd angen i ni adeiladu ysgol arall yn yr ardal yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei fonitro a'i reoli gan yr Awdurdod Lleol.

C. *A fydd cofrestru ar gyfer y chweched dosbarth yn fwy detholus?*

A. Na, cyn belled a bo gyda chi'r cymwysterau priodol ar gyfer Cyfnod Allweddol 4. Byddai'r ysgol a'r corff llywodraethol yn cyflwyno unrhyw newidiadau i hyn.

C. *Fydd y gwaith adeiladu yn effeithio ar addysg disgyblion 7-11 oed?*

A. Bydd rhan o'r safle yn safle adeiladu ac efallai bydd peth llanast a sŵn yn yr ardal lle mae'r gwaith adeiladu. Serch hynny, rydyn ni'n gweithio'n agos iawn gyda'r contractwyr ac maen nhw'n gweithio'n agos gyda'r ysgol i sicrhau dydyn nhw ddim yn gwneud gwaith swmlyd yn ystod cyfnodau arholiadau ayyb. Maen nhw'n gcontractwyr profiadol ac maen nhw'n gwneud popeth o fewn eu gallu i ymgysylltu â'r ysgol ynglŷn â'r gwaith sy'n cael ei wneud. Bydd ffensys diogelwch yn cael eu codi rhwng y rhannau o'r ysgol sy'n cael eu defnyddio ar gyfer disgyblion a'r ardaloedd lle mae gwaith adeiladu yn mynd ymlaen. Fydd dysgu disgyblion ddim yn cael ei effeithio. Eich addysg, eich iechyd a'ch diogelwch yw ein blaenoriaeth. Dydy'r gwaith adeiladu ddim wedi effeithio ar ganlyniadau mewn ysgolion rydyn ni wedi'u cwblhau hyd yn hyn. Mae'r contractwyr hefyd yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion - er enghraifft, weithiau maen nhw'n dysgu cyrsiau peirianeg neu fasnachu.

C. *Fydd disgyblion yn dal i ymweld ag ysgolion eraill?*

A. Byddwn ni'n ceisio lleihau hyn cymaint â phosibl. Efallai bydd rhywfaint o symud rhwng ysgolion yn parhau, ond rydyn ni eisiau lleihau hyn cymaint â phosibl.

Q. *Gofynnodd ET i'r disgyblion - Beth dydych chi ddim yn hoffi am ymweld ag ysgolion eraill?*

A. Disgybl - Yr amseriadau - weithiau dydw i ddim yn cael egwyl cinio ac mae'n rhaid i mi fwyta ar y bws, neu mae'n cymryd amser hir i mi fynd adref. Rydw i'n hoffi mod i'n cael y cyfle i astudio'r pwnc ond, yn aml, mae gwrthdaro yn digwydd rhwng pynciau, felly mae angen i ni gymryd rhagor o bynciau yn y Pant i leihau effaith hyn.

Q. *Fyddwn ni'n gweld rhagor o ddisgyblion Ysgol Gyfun y Pant yn dod yma ar gyfer cyrsiau?*

A. Mae niferoedd y disgyblion yn y Pant hefyd yn cynyddu fel bod modd i'r ysgol yma hefyd gael chweched dosbarth annibynnol .

A. Rydyn ni'n cynllunio'r nifer o leoedd yn yr ysgolion i gyd-fynd â'r nifer o dai sydd i fod i gael eu hadeiladu yn yr ardal.

A. Rydyn ni'n gobeithio cadw'r pellter mae'n rhaid i ddisgyblion y ddwy ysgol deithio mor isel â phosibl.

C. A fydd bariau baguette neu ardaloedd ffreutur ychwanegol?

A. Rydyn ni'n ystyried adeiladu rhagor o gyfleusterau yma ar gyfer disgyblion chweched dosbarth. Os oes rhagor o ddisgyblion, mae angen i ni ddarparu ar gyfer rhagor o bobl. Yn ôl pob tebyg bydd hyn yn golygu bydd angen adeiladu cyfleusterau bwyd ychwanegol.

C. Os fydd y safle na'r adeilad ddim yn tyfu, sut fyddwn ni'n darparu ar gyfer disgyblion ychwanegol?

A. Byddwn ni'n edrych ar y safle cyfan, ond mae lle dros ben yma ar hyn o bryd. Efallai y byddwn ni'n adeiladu estyniadau a byddwn ni'n edrych ar ddefnydd effeithiol o'r lle. Mae'n gyfle i ail-gyflunio'r ysgol.

A. Weithiau rydyn ni'n adeiladu am i fyny er mwyn lleihau maint ôl troed adeilad.

C. Rydych chi wedi dweud fod y dosbarthiadau yn rhy fach mewn rhai ysgolion. Bydd rhagor o ddisgyblion yn dod ac os oes angen rhagor o staff arnoch chi, a fydd hynny'n cydbwysu'r gymhareb disgybl/athro?

A. Rydyn ni'n edrych ar staffio ar draws pob pwnc yn hytrach nag ar un pwnc yn benodol. Rydyn ni'n ceisio staffio mewn ffordd sydd mor hawdd i'w reoli â phosibl. Mae aelodau staff yn hyblyg a bydden nhw'n cynnig dosbarthiadau ychwanegol os bydd modd. Rydyn ni angen cael tua 18 disgybl ar gyfer pob dosbarth chweched dosbarth er mwyn i'r dosbarth fod yn hyfyw. Mae hyn yn annog ffordd newydd o ddysgu.

A. Dydyn ni ddim yn gwybod pa bynciau fydd yn cael eu cynnig eto ond bydd gyda chi ragor o staff oherwydd po fwyaf yw'r chweched dosbarth po fwyaf fydd cyllideb yr ysgol. Mae'r gymhareb ddelfrydol o 18 disgybl ymhob dosbarth yn golygu ei fod yn debygol bydd gyda chi ddigon o arian i dalu am athro arall.

A. Efallai bydd rhai ysgolion mewn dyled enfawr os oes ganddyn nhw niferoedd isel o ddisgyblion mewn dosbarth.

C. Mae uned ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau Cyfathrebu yma ac mae'n bwysig iawn i ni. Sut fydd hon yn cael ei heffeithio?

A. Bydd yr uned yn aros. Mae staff yr uned yn gwneud gwaith gwyb. Ar hyn o bryd maen nhw'n darparu ar gyfer disgyblion hyd at 16 oed sydd ag anghenion statudol ond efallai bydd angen cymorth pellach ar rai disgyblion. Byddwn ni'n edrych ar hyn yn y dyfodol, ond does dim cynlluniau i'w dyfu ar hyn o bryd.

C. Mae rhai wedi disgrifio hyn fel canolfan ragoriaeth - a fydd ar wahân i Gyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4? Rydyn ni'n cydweithio'n agos gyda nhw ar hyn o bryd.

A. Na, bydd y ganolfan yn dal i fod yn rhan o'r ysgol. Bydd y rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n mynychu'r ganolfan wedi dod o Gyfnodau Allweddol 3 a 4 yn yr ysgol yma. Dylai'r parhad rhwng aelodau staff a disgyblion ddim newid wedi i'r chweched dosbarth ehangu. Bydd disgyblion ychwanegol yn y chweched

dosbarth ond rydyn ni'n annog dosbarthiadau chweched dosbarth i weithio gyda disgyblion iau.

A. Bydd rhagor o ddisgyblion gyda rhagor o sgiliau i'w cynnig i gymuned yr ysgol isaf ac mae'n gyfle cyffrous.

C. *Mae cyllideb y Cyngor wedi bod yn lleihau o ganlyniad i doriadau'r Llywodraeth yn San Steffan. Ai hyn fyddai'r arian bydden ni wedi'i gael pe na bai'r toriadau wedi digwydd?*

A. Mae'n rhaid i ni, fel adran, wneud cais am yr arian yma a chystadlu amdano. Cawson ni gryn dipyn o arian gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Band A Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Cyfrannodd y Cyngor swm cyfatebol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo £168 miliwn (mewn egwyddor) ar gyfer Band B. Mae gyda ni gostau dangosol ar gyfer yr ysgol yma ac rydyn ni wedi nodi ffigur cychwynnol o £10 miliwn.

A. Os na fyddwn ni'n gwneud hyn, byddwn ni ddim yn cael yr arian. Dydyn ni heb gymryd yr arian gan ysgolion eraill er mwyn talu am hyn.

C. *Ydy hyn yn arian gan yr UE? Fydd yr arian yn cael ei dynnu'n ôl?*

A. Na. Mae'r arian gan Lywodraeth Cymru ac mae'n dod yn uniongyrchol at y Cyngor.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniadau a daeth y cyfarfod i ben.